Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 23 Mai 2013**

Amser:
**09:00**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Polisi: Marc Wyn Jones**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8505 / 029 2089 8600
pwyllgor.CCLlI@cymru.gov.uk

## Agenda

**Cyfarfod preifat cyn y prif gyfarfod - 09.00 - 09.15**

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon (09.15)

### 2 Sesiwn graffu ar waith y Gweinidog - Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (09.15 - 11.00) (Tudalennau 1 - 12)

CELG(4)-16-13 - Papur 1

Huw Lewis, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Kate Cassidy, Cyfarwyddwr yr Adran Cymunedau a Threchu Tlodi
Owain Lloyd, Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithrediadau, Llywodraeth Leol a Chymunedau

### 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Eitem 4

### 4 Ymchwiliad i Addasiadau yn y Cartref - trafod y prif faterion (11.00 - 11.30) (Tudalennau 13 - 31)

CELG(4)-16-13 - Papur preifat 2

## 5 Papurau i'w nodi

**Bil Safleoedd Rheoleiddiedig Cartrefi Symudol (Cymru): Llythyr gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ynghylch safleoedd Sipsiwn a Theithwyr llywodraeth leol** (Tudalen 32)
CELG(3)-16-13 - Papur (i'w nodi) 3

**Llythyr gan y Gweinidog Tai ac Adfywio - rhagor o wybodaeth yn dilyn y cyfarfod ar 17 Ebrill** (Tudalennau 33 - 38)
CELG(4)-16-13 - Papur (i'w nodi) 4

**Papur 1**
**Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol**

Dyddiad: **23 Mai 2013**

Amser: **9.15 - 11.15**

Teitl: **Papur Tystiolaeth – Portffolio Cymunedau a Threchu Tlodi**

## TROSOLWG

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn amlinellu pob un o'm mhrif flaenoriaethau ar gyfer tymor presennol y Cynulliad. Rwy'n falch ein bod eisoes wedi cyflawni llawer o'r blaenoriaethau a nodwyd yn llwyddiannus. Byddwn yn parhau i weithio'n galed er mwyn sicrhau cynnydd ym mhob un o'r ymrwymiadau a wnaed yn ein Rhaglen Lywodraethu.

Mae hwn yn bortffolio cyffrous a phwysig. Un o fy mhrif nodau yw cynyddu'r cysylltiadau rhwng gwahanol bolisïau a rhaglenni yn fy mhortffolio a manteisio arnynt. Mae'n bwysig hefyd ein bod yn blaenoriaethu'n arian cyfyngedig ar gyfer buddsoddi a fydd yn atal a diogelu, wrth i ni geisio sicrhau cymunedau gwydn, lle gall teuluoedd ac unigolion gael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt. Thema craidd ar draws y portffolio yw cymunedau cryf. Ddylem helpu cymunedau i fod yn gryfach – hynny yw cymunedau gwybodus a rhwydweithiol; lle mae teuluoedd ac unigolion yn gallu cael mynediad i'r cymorth sydd angen arnynt; a lle mae awdurdodau lleol a gwasanaethau cyhoeddus arall, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, Undebau Credyd, gwasanaethau cynghori, y trydydd sector a sefydliadau cymunedol, undebau llafur a chyflogwyr yn cydweithio tuag at yr un nod.

Mae'r papur hwn yn crynhoi'r cynnydd a wnaed yn rhai o feysydd allweddol y portffolio Cymunedau a Threchu Tlodi. Ar y cyfan, mae dangosyddion canlyniadau'r Rhaglen Lywodraethu yn dangos i ni bod lefelau tlodi (yn enwedig ymysg plant) yn parhau i fod yn ystyfnig o uchel ac wrth edrych ymlaen mae yna heriau sylweddol yn ein hwynebu o ran lleihau'r dangosydd hwn ymhellach. Yn benodol, cynlluniau Llywodraeth y DU ar gyfer lles yw'r newid mwyaf mewn 60 mlynedd yn y system les. Byddant yn taro aelodau tlotaf ein cymdeithas galetaf ar adeg pan nad yw economi'r DU yn tyfu fawr ddim. Bydd gan y wasgfa ddwbl hon oblygiadau economaidd a chymdeithasol aruthrol.

Bydd Llywodraeth y Du yn gwneud popeth yn ei gallu er mwyn helpu pobl drwy'r newidiadau hyn ac adfer y sefyllfa yn sgil penderfyniadau Llywodraeth y DU. Mae fy swyddogion yn gweithio ar draws Llywodraeth Cymru er mwyn adolygu, cryfhau a diweddaru ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi a'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Rydym yn buddsoddi'n sylweddol mewn rhaglenni sy'n mynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi a cheisio gwella bywydau'r rhai sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel. Mae'r rhaglenni hyn yn cynnwys y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a ail-lansiwyd, a oedd yn canolbwyntio ar drechu tlodi, ehangu Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd, ymyriadau cynnar drwy Teuluoedd yn Gyntaf, a'n hymrwymiad allweddol i gynyddu buddsoddiad yn y cynllun Dechrau'n Deg.

Bydd ein camau a'n hymrwymiadau i ddatblygu cyfle cyfartal, mynd i'r afael â gwahaniaethu, a hybu cymdeithasau cynhwysol a chydlynol yn parhau i fod yn flaenoriaeth, yn ogystal â threchu anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol. Yn unol gyda'n ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy, sicrhau Cymru decach bydd ein nod nawr ac ar gyfer cenedlaethau i ddod.

Er y byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu, mae ein cyllidebau ein hunain dan fwy o bwysau nag erioed gyda thoriadau pellach wedi'u cyhoeddi gan y Canghellor ym mis Mawrth diwethaf fel rhan o Gyllideb Llywodraeth y DU. Mae'n bwysig bod pobl yn deall bod gan y newidiadau lles y potensial i effeithio ar wasanaethau cyhoeddus ar draws meysydd fel iechyd, gofal cymdeithasol, tai, addysg, llywodraeth leol a mwy.

## CYNLLUN GWEITHREDU AR GYFER TRECHU TLODI (27461)

Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2012, yn dwyn ynghyd amrywiaeth o bolisïau ac ymyriadau ar draws holl adrannau Llywodraeth Cymru. Bwriadaf gyhoeddi cynllun gweithredu diwygiedig yn ystod haf 2013, a byddaf yn cofnodi cynnydd a'r hyn a wnawn yn y dyfodol.

Bydd gan y cynllun diwygiedig hwn fwy o bwyslais ar amcanion ynghyd â naratif clir er mwyn amlinellu'r gwaith sy'n cael ei wneud ar draws y llywodraeth i gyflawni'r amcanion a chyfres gryfach o gerrig milltir a thargedau er mwyn olrhain cynnydd yn erbyn amcanion. Mae'n bwysig ein bod yn nodi'r amcanion amlwg yn glir mewn perthynas â Threchu Tlodi, er enghraifft cau'r bwlch o ran cyrhaeddiad addysgol, lleihau nifer yr aelwydydd sydd heb waith a lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt yn ennill cyflog nac yn dysgu.

Penodwyd Eiriolwyr Trechu Tlodi ym mhob un o Adrannau Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau dull cyfannol o drechu tlodi. Mae Eiriolwyr Gwrthdlodi hefyd yn cael eu dewis ym mhob awdurdod lleol ar lefel aelodau ac ar lefel uwch-swyddogion.

Penodwyd Grŵp Cynghori allanol i gydweithio â ni a'n cynghori ar gamau i drechu tlodi, sy'n gysylltiedig â'r rhai a nodir yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi.

Cafwyd gwaith ymgysylltu allanol sylweddol wrth ddiweddaru'r cynllun, gan gynnwys gyda'r Comisiynwyr, cynrychiolwyr y Trydydd Sector, y Grŵp Cynghori Allanol, ac yn bwysicach, gyda phobl sydd â phrofiad uniongyrchol o dlodi.

## CYMUNEDAU YN GYNTAF

Mae rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wedi'i hail-lansio fel rhaglen gymunedol sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â thlodi gyda phwyslais penodol ar y tri chanlyniad strategol sef cymunedau iachach, cymunedau dysgu a chymunedau ffyniannus. Mae'r rhaglen yn allweddol er mwyn trechu tlodi drwy weithio gydag unigolion a chymunedau yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru drwy Glystyrau

Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r Clystyrau hyn yn berthnasol i tua 24% o boblogaeth Cymru.

Cyhoeddwyd 52 o Glystyrau erbyn mis Ionawr 2013, gan gynrychioli'r holl gymunedau a ystyriwyd yn gymwys i'w cynnwys yn rhaglen newydd Cymunedau yn Gyntaf, ar sail eu safle ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Gyda'i gilydd, byddant yn derbyn tua £75 miliwn hyd at fis Mawrth 2015. Bydd yr arian yn cefnogi amrywiaeth o brosiectau sy'n seiliedig yn y gymuned a gweithgareddau a arweinir gan y Tîm Cyflawni ar gyfer pob Clwstwr. Byddant yn rhoi cymorth i'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gan weithio i drechu tlodi, helpu pobl i gael gwaith a lleddfu effeithiau tlodi.
Fel enghraifft o sut mae rhaglenni prif ffrwd ar draws Llywodraeth Cymru yn rhoi mwy o bwyslais ar drechu tlodi, rydym yn cyfuno ein rhaglenni a'n polisïau er mwyn cefnogi Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf newydd. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Ehangu gwaith llwyddiannus Canolfan Byd Gwaith gan symud Cynghorwyr Canolfan Byd Gwaith i gymunedau fel rhan integredig o dîm Cymunedau yn Gyntaf.
- Sefydlu 10 cynllun peilot er mwyn cynorthwyo pobl ifanc o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf i fanteisio'n llawn ar gyfleoedd Twf Swyddi Cymru
- - Prosiect gyda Chwaraeon Cymru sydd wedi'i ariannu ar y cyd er mwyn annog "chwaraeon stepen drws" ym mhob Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf yng Nghymru.
- Swyddi rhanbarthol a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop er mwyn cefnogi'r gwaith o integreiddio â Theuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd.
- Sefydlu Cronfa Arian Cyfatebol Grant Amddifadedd Disgyblion Cymunedau yn Gyntaf, er mwyn darparu £2m filiwn i gynorthwyo Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf ac ysgolion i gydweithio

Bydd amrywiaeth o gyfleoedd pellach ar gyfer Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn cael eu datblygu dros y flwyddyn nesaf.

## LLINIARU EFFEITHIAU POLISI DIWYGIO LLES LLYWODRAETH Y DU

Comisiynodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio Lles raglen ymchwil tri cham er mwyn asesu effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru. Lansiodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ganfyddiadau ymchwil Cam 2 ar 18 Chwefror 2013. Mae amrywiaeth o gamau ar y gweill, neu'n cael eu hystyried, a fydd yn cyfrannu at liniaru effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru. Bydd canfyddiadau'r ymchwil yn helpu i nodi'r ffordd orau o amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed, a lleddfu unrhyw effaith negyddol lle bo modd.

Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu cyfres o gamau lliniaru cydgysylltiedig, gan gynnwys, er enghraifft, y rhai a nodir isod sy'n gysylltiedig â'r nod o gefnogi cymunedau gwydn sy'n wybodus, yn drefnus ac yn gallu helpu'r rhai sydd fwyaf mewn angen mewn modd amserol.

Cronfa Cymorth Dewisol

Cafodd elfennau o'r Gronfa Gymdeithasol gyfredol a ddarparwyd gan Lywodraeth y DU, y Benthyciadau Argyfwng a'r Grantiau Gofal Cymunedol Dewisol yn benodol, eu terfynu ddiwedd mis Mawrth 2013. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno ei chynllun ei hun o 2 Ebrill 2013 ymlaen. Enw'r cynllun newydd yw'r Gronfa Cymorth Dewisol.

Diben y Gronfa Cymorth Dewisol yw cynnig taliadau neu gymorth 'mewn nwyddau' er mwyn galluogi pobl i fyw'n annibynnol neu i gynnal bywyd annibynnol a darparu cymorth brys i bobl lle nodwyd angen i ddiogelu iechyd a lles. Bydd y taliadau hyn ar gael i bobl nad oes ganddynt unrhyw ddull arall o dalu costau byw uniongyrchol ac nid bwriad y taliadau yw talu treuliau parhaus. Felly, nid yw'r taliadau o'r gronfa hon yn gorfod cael eu had-dalu. Bydd y gronfa hon yn para am ddwy flynedd yn y lle cyntaf, a'r gyllideb flynyddol a neilltuir ar gyfer y gronfa newydd yw £10.2 miliwn y flwyddyn. Yn ystod mis Ebrill, dosbarthwyd 1,434 o ddyfarniadau gyda £15,871 yn cael ei ddarparu fel Taliadau Cymorth mewn Argyfwng a darparwyd £243,704 fel Taliadau Cymorth i Unigolion.

Gwasanaethau Cynghori

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £2.2 miliwn y flwyddyn am dair blynedd o 2012/2013 ymlaen i Gyngor ar Bopeth Cymru er mwyn ceisio cryfhau cynlluniau presennol Llywodraeth Cymru sy'n annog pobl i hawlio budd-daliadau - Cyngor Da: Iechyd Da, Cynllun hawlio Budd-daliadau ar gyfer Plant ag Anableddau a hawlio Budd-dâl y Dreth Gyngor a'r Budd-dâl Tai. Mae'r enillion mewn budd-daliadau a welwyd yn sgil y fenter hon ar gyfer cryfhau ("Cyngor Da, Iechyd Da"), uwchlaw targedau cychwynnol y prosiect, a chofnodwyd dros £16.8 miliwn o enillion mewn budd-daliadau ym mlwyddyn gyntaf y prosiect (2012/13).

Mae Llywodraeth Cymru yn sicr y bydd gwasanaethau cynghori yn parhau i fod yn bwysig yn y gwaith o leddfu effeithiau'r dirywiad economaidd a diwygiadau lles Llywodraeth y DU. Rydym yn gweithio felly tuag at sefydlu Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau cynghori wedi'u cydgysylltu'n strategol, cynyddu dysgu a rennir, a manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael.

Cynhaliwyd adolygiad o'r gwasanaethau cynghori yn sgil newidiadau'r Diwygiad Lles a diwygiadau i gymorth cyfreithiol. Mae adroddiad a baratowyd ar gyfer yr adolygiad yn argymell gwell cydgysylltu a chydweithio rhwng gwasanaethau. Mae'r adolygiad wedi ystyried, yn benodol, cyngor ar Les Cymdeithasol gan mai'r cyngor ar fudd-daliadau lles, dyled, tai a chyflogaeth yw'r meysydd sydd â'r galw mwyaf am wasanaethau cynghori am ddim. Mae Cyngor ar Bopeth wedi cofnodi cynnydd sydyn mewn galw am gyngor ar fudd-daliadau lles, gan dynnu sylw at gynnydd o 24% o 2010 i 2012 yn nifer y bobl sy'n gofyn am gyngor ar fudd-daliadau a chredydau treth. Cefnogwyd yr adolygiad gan grŵp mewnol, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o adrannau perthnasol ar draws Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Tai. Cyflwynodd grŵp allanol sylwadau ar y gwaith hefyd, ac roedd y grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, Cyngor ar Bopeth Cymru a Shelter Cymru. Cyhoeddwyd adroddiad ymchwil

ar yr Adolygiad o Wasanaethau Cynghori ar wefan Llywodraeth Cymru ar 15 Mai. Byddaf yn gofyn am gynigion gan ddarparwyr cyngor a sefydliadau eraill ar y ffordd orau o roi canfyddiadau'r adolygiad ar waith er mwyn sicrhau gall pobl gael gafael ar y cymorth sydd ei arnynt ei angen.

Yn ogystal, mae gwaith sylweddol eisoes wedi cychwyn er mwyn datblygu cynigion i Cymunedau yn Gyntaf gydweithio â Chyngor ar Bopeth Cymru er mwyn gwella cyngor ar ddyled a lles mewn Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ymgorffori i ffordd y Llywodraeth o feddwl yn y dyfodol.

Ar ran y Gwasanaeth Cynghori Ariannol yng Nghymru, mae Cyngor ar Bopeth Cymru hefyd wedi rhoi cyngor wyneb yn wyneb ar ddyled i dros 4700 o gleientiaid yn y pum mis hyd at fis Awst 2012 a 4431 yn rhagor o sesiynau cyngor ariannol hyd at fis Ionawr 2013.

Cymunedau 2.0

Cymunedau 2.0 yw rhaglen cynhwysiant digidol gwerth £21 miliwn Llywodraeth Cymru ac mae ar waith rhwng mis Ebrill 2009 a mis Mawrth 2015. Mae'n blaenoriaethu cymorth i'r grwpiau sydd wedi'u hallgáu fwyaf yn ddigidol mewn cymdeithas drwy eu helpu i oresgyn rhwystrau, meithrin eu hyder, a chreu cyfleoedd iddynt ddefnyddio sgiliau newydd. Mae'n helpu i gefnogi mentrau cymdeithasol hefyd, ac, yn fwy diweddar mentrau meicro newydd, er mwyn gwella eu gweithrediadau a'u cystadleurwydd drwy TGCh. Mae Cymunedau 2.0 yn meithrin cynghreiriau strategol gyda sefydliadau allweddol sy'n cynrychioli'r bobl sydd wedi'u hallgáu fwyaf yn ddigidol a chydweithio â nhw. Mae'r rhain yn cynnwys Age Cymru, Anabledd Cymru, RNIB Cymru, Shelter Cymru, Gofal a Thrwsio, awdurdodau lleol, llyfrgelloedd, Galw Iechyd Cymru, cymdeithasau tai a chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf.

Mae Cymunedau 2.0 eisoes wedi helpu dros 23,000 o bobl i fynd ar-lein. Mae Cymunedau 2.0 yn helpu i leddfu effaith elfennau digidol y diwygiad lles (yn sgil y cam tuag at hawlio credyd cynhwysol ar-lein o fis Hydref 2013), gan wella bywydau pobl hefyd drwy sicrhau bod y cyfleodd y gall y dechnoleg ddiweddaraf ei chynnig ar gael. Mae'r mentrau a ariennir gan Cymunedau 2.0 yn helpu i hyfforddi cannoedd o staff awdurdodau lleol a chymdeithasau tai i gyflwyno cynhwysiant digidol rheng flaen i bobl sy'n hawlio budd-daliadau. Mae Cymunedau 2.0 hefyd yn cyflwyno sesiynau “Web for work” er mwyn mynd i'r afael â heriau cyflogadwyedd. Drwy atgyfeiriadau gan Ganolfannau Byd Gwaith, mae'n helpu ceiswyr gwaith i wella eu sgiliau TGCh er mwyn eu helpu i chwilio am swyddi ar-lein ac ymgeisio amdanynt.

## UNDEBAU CREDYD

O fis Hydref 2010 i fis Medi 2013, mae Llywodraeth Cymru a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ar y cyd wedi darparu cyllid o £4,056 miliwn i barhau'r Prosiect Mynediad i Wasanaethau Ariannol drwy Undebau Credyd. Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r ffordd orau i Lywodraeth Cymru barhau i gefnogi Undebau Credyd wedi i'r prosiect cyfredol ddod i ben, ac mae hyn yn seiliedig ar ail adroddiad y gwerthusiad annibynnol tri rhan o'r prosiect sy'n cael ei gynnal gan Old Bell 3.

Erbyn mis Rhagfyr 2012, roedd dau Undeb Credyd ar bymtheg wedi helpu dros 12,629 o oedolion sy'n bodloni'r diffiniad o fod wedi'u heithrio'n ariannol, i gael mynediad i gynhyrchion ariannol sy'n syml, yn dryloyw ac yn fforddiadwy. Mae Undebau Credyd hefyd wedi recriwtio dros 4100 o gynilwyr iau newydd ledled Cymru er gwaethaf y ffaith i Gynllun y Gronfa Ymddiriedolaeth Plant gael ei ddiddymu. Mae asedau Undebau Credyd Cymru hefyd wedi parhau i dyfu. Yn 2000, amcangyfrifwyd bod yr asedau'n werth £4 miliwn, ac roeddent wedi cynyddu i oddeutu £30.6 miliwn erbyn mis Medi 2012. Amcangyfrifir bod gwerth y benthyciadau a ddarparwyd gan Undebau Credyd Cymru yn fwy na £14.7 miliwn, tra bod cynilion wedi cyrraedd dros £24.6 miliwn.

Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r ffordd orau i Lywodraeth Cymru barhau i gefnogi Undebau Credyd yng Nghymru wedi i'r prosiect cyfredol ddod i ben ym mis Medi 2013.

## TEULUOEDD YN GYNTAF

Mae'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn mynd ati i gefnogi teuluoedd yng Nghymru mewn ffordd integredig, sy'n canolbwyntio ar y teulu cyfan. Ei nod yw datblygu cymorth effeithiol, amlasiantaethol i deuluoedd er mwyn gwella eu canlyniadau, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn tlodi neu mewn perygl o dlodi. Disgwylir i Awdurdodau Lleol ddatblygu prosesau asesu ac ymgysylltu sy'n canolbwyntio'n gynyddol ar deuluoedd drwy'r "Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd" (JAFF), a gwella cymorth cydgysylltiedig drwy fodelau "Tîm o Amgylch y Teulu".

Mae Timau o Amgylch y Teulu yn weithredol bellach ym mhob un o'r 22 Awdurdod Lleol ac mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud, gyda phob ardal awdurdod lleol yn recriwtio, neu wedi recriwtio, i'w Timau o Amgylch y Teulu. Mae gan bob ardal Awdurdod Lleol gydgysylltydd Tîm o Amgylch y Teulu penodedig.

Mae'r gwaith o ddatblygu'r rhaglen a'i rhoi ar waith yn mynd rhagddo ers iddi gael ei chyflwyno drwy Gymru gyfan yn 2012.

Cynhaliwyd y Setiau Dysgu cenedlaethol cyntaf ym mis Ionawr 2013 gan ganolbwyntio ar ddatblygiad y gweithlu a dulliau'r "Tîm o Amgylch y Teulu". Cyflwynodd y Prif Weinidog y brif araith yn y digwyddiad hwn.

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud ar y cynllun Tîm o Amgylch y Teulu: mae pob ardal Awdurdod Lleol wedi datblygu modelau Tîm o Amgylch y Teulu cychwynnol ac yn eu gweithredu ac mae ganddynt lwyth achosion gweithredol. Erbyn mis Tachwedd 2012, roedd dros 1600 o atgyfeiriadau JAFF wedi'u gwneud i dimau lleol Teuluoedd yn Gyntaf ac roedd dros 1300 o gynlluniau gweithredu Tîm o Amgylch y Teulu wedi'u rhoi ar waith ar gyfer teuluoedd.

Mae rhaglen werthuso tair blynedd (2012-2015) wedi'i chomisiynu i ystyried effaith y rhaglen dros ei blynyddoedd cyntaf. Mae'r adroddiadau a luniwyd hyd yn hyn yn

dangos bod yna gefnogaeth gref i'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf ymysg Awdurdodau Lleol, yn enwedig y dull amlasiantaethol o gefnogi teuluoedd.

## DECHRAU'N DEG

Dechrau'n Deg yw rhaglen flaenllaw Llywodraeth Cymru ar gyfer y blynyddoedd cynnar. Mae'n cynnig llwybr tuag at wella cyfleoedd bywyd plant yn rhai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae'r rhaglen amlddisgyblaethol yn darparu cyfres "gyffredinol" o hawliau y gall pob plentyn dan bedair oed, a'u teuluoedd, o fewn ardaloedd a dargedwyd yn ddaearyddol, gael gafael atynt.

Mae'r rhaglen eisoes yn cynorthwyo 18,000 o blant a'u teuluoedd, ac erbyn diwedd tymor presennol y Cynulliad, bydd 36,000 o blant a'u teuluoedd wedi cael budd. Mae cynlluniau strategol tair blynedd wedi'i datblygu gan awdurdodau lleol er mwyn sicrhau y gellir cyflwyno'r rhaglen estynedig.

Mae perfformiad Awdurdodau Lleol yn cael ei lywio gan broses o Reolwyr Cyfrif a chaiff ei asesu gan fframwaith perfformiad a monitro trylwyr. Mae cynllun recriwtio a hyfforddi strategol wedi'i ddatblygu ar y cyd â'n prif bartneriaid yn lleol ac yn genedlaethol er mwyn cyflawni ein gofynion ar gyfer y gweithlu:

- Mae hyfforddiant sylweddol eisoes wedi cychwyn ac mae'r rhaglen Dechrau'n Deg wedi cychwyn ar y broses o ariannu carfan gychwynnol o 71 o Ymwelwyr Iechyd dan hyfforddiant.
- Mae awdurdodau lleol wedi datblygu cynlluniau strategol ar gyfer darparu eu gweithlu gofal plant a chymorth i deuluoedd.

Mae cyllid cyfalaf wedi'i sicrhau ac mae Gweinidogion wedi cymeradwyo prosiectau cyfalaf sy'n cynnwys lleoliadau gofal plant o safon uchel. Mae 145 o brosiectau wedi'u cymeradwyo erbyn hyn sy'n werth cyfanswm o £20.918 miliwn.

Mae swyddogion yn parhau i fodelu'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen estynedig yn raddol er mwyn sicrhau ei bod yn cyd-fynd â'r adnoddau cyfalaf a'r gweithlu sy'n ehangu pan fyddant ar gael.

## CYMORTH I WEITHWYR CYFLOGEDIG REMPLOY A DDADLEOLWYD

Lansiodd Llywodraeth Cymru y Grant Cymorth i Gyflogwyr er mwyn helpu staff a ddadleolwyd gan Remploy ddod o hyd i swyddi newydd. Mae'n cynnig cymorth ariannol i gyflogwyr sy'n ystyried cynnig cyflogaeth briodol a chynaliadwy i weithwyr yng Nghymru a ddadleolwyd gan Remploy. Mae'r cyllid ar gael i sefydliadau a all gynnig cyflogaeth briodol i gyn-weithwyr cyflogedig anabl Remploy am o leiaf bedair blynedd. Mae'r cymorth ar gael hefyd i gyn-weithwyr cyflogedig anabl Remploy sydd bellach yn hunangyflogedig neu'n bwriadu sefydlu eu busnes eu hunain.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio ar y cyd â Chwmnïau Cymdeithasol Cymru, Canolfan Cydweithredol Cymru, Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Cymru, Canolfan Byd Gwaith, a rheolwyr lleol Remploy i nodi cyflogwyr a chyfleoedd busnes er mwyn creu swyddi newydd ar gyfer gweithwyr anabl Remploy sydd wedi cael eu diswyddo. Mae Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid wedi defnyddio cyfuniad o fecanweithiau

cymorth er mwyn nodi cyfleoedd ailgyflogi. Mae Canolfan Byd Gwaith Cymru wedi cefnogi'r broses Grant Cymorth i Gyflogwyr drwy ei weithwyr achosion personol, sydd wedi bod yn allweddol wrth baru cyn-weithwyr cymwys Remploy â chyfleoedd gwaith a gefnogir gan y Grant Cymorth i Gyflogwyr.

Mae'r cynllun wedi bod yn llwyddiannus i lawer o gyflogwyr a chyn-weithwyr Remploy. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod y cynllun wedi helpu 78 o gyn-weithwyr Remploy i ddod o hyd i swyddi newydd, a daethpwyd o hyd i i gyfleoedd gwaith i fwy.

Ar 6 Mai 2013, cyhoeddais y bydd y gweithwyr hynny a effeithiwyd gan "Gam 2" yn cael yr un gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru hefyd. Bydd y cynllun yn cael ei ehangu fel y gellir ymgeisio tan fis Mawrth 2014. Bydd y pecyn cymorth yn cael ei ariannu gyda hyd at £2.4 miliwn o gyllid Llywodraeth Cymru.

## HAWLIAU'R PLENTYN

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i hawliau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'r Mesur wedi'i roi ar waith mewn dau gam. O 1 Mai 2012 cychwynnodd y ddyletswydd oedd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion roi sylw dyledus i erthyglau'r Confensiwn wrth wneud penderfyniadau am bolisïau a deddfwriaeth newydd neu wrth ddiwygio neu adolygu polisïau presennol. O 1 Mai 2014 bydd y ddyletswydd yn ehangu gan ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion roi sylw dyledus pryd bynnag y byddant yn arfer unrhyw un o'u swyddogaethau. Roedd Adran 4 y Mesur yn ei gwneud yn ofynnol, erbyn 31 Ionawr 2013, i Lywodraeth Cymru gyhoeddi adroddiad ar y broses o gydymffurfio â'r ddyletswydd o roi sylw dyledus i'r Confensiwn a'i brotocolau dewisol. Mae'r adroddiad yn rhoi gwybodaeth am gynnydd Llywodraeth Cymru wrth roi'r Mesur ar waith.

Mae ein cynllun "Gwneud Pethau'n Iawn" yn ymateb i argymhellion a wnaed gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn dilyn adroddiad y DU ar hawliau plant yn 2008 ac mae'n cynnwys yr 16 maes blaenoriaeth a gytunwyd ar gyfer Cymru.

Ym mis Ionawr 2014, bydd yn ofynnol i Lywodraeth y DU (fel Plaid y Wladwriaeth) gyflwyno eu hadroddiad yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Bydd angen i'r adroddiad hwn adlewyrchu'r sefyllfa ledled y DU. Rydym yn parhau i gymryd rhan mewn trafodaethau manwl gyda swyddogion y DU ar y ffordd y bydd y broses yn gweithio, ond yn bwysicach fyth, y ffordd y bydd ein hagwedd gadarnhaol tuag at hawliau plant yng Nghymru yn cael ei adlewyrchu'n ddigonol i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig. Ar hyn o bryd, rydym yn diweddaru'r "Cynllun Gweithredu ar gyfer Gwneud Pethau'n Iawn" a fydd yn sail i'n cyfraniad i gyflwyniad y DU.

## CYFLEOEDD CHWARAE

Mae gwella cyfleoedd chwarae i bob plentyn a pherson ifanc yn rhan o ymrwymiad ein maniffesto yn y Rhaglen Lywodraethu. Er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwn, ym mis Tachwedd 2012 cychwynnwyd ar ran gyntaf adran 11, Cyfleoedd Chwarae, ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Mae hyn, ynghyd â Rheoliadau Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru) 2012, yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu pa mor ddigonol yw cyfleoedd chwarae ar gyfer plant yn eu hardaloedd. Cyflwynwyd yr asesiadau hyn, a oedd yn cynnwys cynlluniau gweithredu er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion a gwella cyfleoedd chwarae, i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2013.

## GOFAL PLANT

Mae ein hamcanion polisi ar gyfer gofal plant yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni agendâu Trechu Tlodi, Blynyddoedd Cynnar a Chydraddoldeb ein Rhaglen Lywodraethu. Rydym wedi nodi bod mynediad i ofal plant fforddiadwy o safon uchel yn un o brif flaenoriaethau ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi. Mae'r flaenoriaeth hon yn ganolog i gynorthwyo rhieni i ddychwelyd i weithio yn ogystal â sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant o ran datblygiad. Rydym yn parhau i fuddsoddi yn y blynyddoedd cynnar ac mae gennym nifer o raglenni sy'n darparu cefnogaeth amrywiol i rieni. Rydym yn parhau hefyd i gydweithio â'n partneriaid a'n rhanddeiliaid er mwyn datblygu'r camau gweithredu yn ein Datganiad Polisi Gofal Plant "Magu Plant, Cefnogi Teuluoedd". Mae nifer o'r camau gweithredu hyn yn cael eu datblygu ar draws portffolios drwy Gynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant sy'n cael ei ystyried gan Weinidogion ar hyn o bryd.

Rydym yn gweithio hefyd gydag Adrannau eraill Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r Diwygiad Lles er mwyn sicrhau y bydd pobl Cymru yn gallu parhau i gael mynediad i gredydau treth addas os ydynt yn gymwys.

## CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL

Lansiodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Cydraddoldeb Strategol a'i hamcanion cydraddoldeb ar 2 Ebrill 2012. Derbyniwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y broses yn rheolaidd a llwyddwyd i ymgysylltu ar bob lefel ar draws Llywodraeth Cymru.

Mae Bwrdd Cydraddoldeb Strategol wedi'i sefydli, gyda chynrychiolaeth fewnol ac allanol, a bydd cylch gwaith y Bwrdd yn cynnwys darparu cymorth, heriau, cyngor ac adborth adeiladol ar gynnydd y gwaith o gyflawni'r amcanion cydraddoldeb. Cynhaliwyd ei gyfarfod cyntaf ym mis Mawrth 2013.

Mae Adroddiad Blynyddol cyntaf y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2011/12 wedi'i gyhoeddi ac mae'n nodi ein dyletswyddau adrodd dan Ddeddf Llywodraeth Cymru a Dyletswyddau Cydraddoldeb sy'n benodol i Gymru. Cyhoeddir yr adroddiad blynyddol nesaf yn ystod yr hydref.

Er bod Llywodraeth y DU yn edrych yn barod ar y Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus o dan Deddf Cydraddoldeb 2010, ac wedi cynnig diddymu'r ddyletswydd sector cyhoeddus yn Lloegr i roi sylw i anghydraddoldebau sy'n codi o anfantais

economaidd-gymdeithasol, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo’n gadarn i’ barhau gyda’r gofynion.

## FFRAMWAITH GWEITHREDU AR FYW'N ANNIBYNNOL AR GYFER POBL ANABL

Mae Fframwaith Gweithredu ar Fyw’n Annibynnol yn nodi’r camau gweithredu yr ydym yn bwriadu eu cymryd er mwyn hybu hawliau pobl anabl yng Nghymru i fyw’n annibynnol ac arfer yr un hawliau â dinasyddion eraill. Cyhoeddwyd y Fframwaith ar gyfer ymgynghori ym mis Medi 2012. Cyhoeddwyd crynodeb o ymatebion i’r ymgynghoriad ar y fframwaith drafft ar wefan Llywodraeth Cymru ddiwedd mis Mawrth. Bydd y ffocws ar y meysydd blaenoriaeth allweddol a nodwyd gan y bobl anabl eu hunain, ac ar egluro sut y gellir mynd i’r afael â’r rhwystrau i gydraddoldeb ym mhob un o’r meysydd hyn. Rydym wedi ymgysylltu’n eang â phobl anabl a’r sefydliadau sy’n eu cynrychioli yn ystod y gwaith o ddatblygu’r fframwaith ac yn ystod y cyfnod ymgynghori. Maent wedi ein hysbysu eu bod am gael camau ymarferol sy’n dileu rhwystrau i gydraddoldeb a chynhwysiant i bobl anabl sy’n byw yng Nghymru.

Cyhoeddir y Fframwaith terfynol yn ddiweddarach eleni.

## CYNYDDU GRADDAU YMGYSYLLTU A CHYFRANOGI GRWPIAU HEB GYNRYCHIOLAETH DDIGONOL

Mae adroddiad astudiaeth achos Chwaraeon Cymru wedi dangos sut mae ymrwymiad y Cadeirydd a dulliau rhagweithiol Chwaraeon Cymru o ran annog menywod i ymgeisio am benodiadau cyhoeddus, wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol.
Er bod canlyniadau gwaith Chwaraeon Cymru yn galonogol iawn, mae’r diffyg sylweddol yn y cydbwysedd rhwng y rhywiau mewn penodiadau cyhoeddus yn parhau ledled Cymru ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i unioni hyn. Yn gynharach eleni, ysgrifennodd y Gweinidogion at Gadeiryddion pob Bwrdd Sector Cyhoeddus a reoleiddir yn gofyn iddynt weithredu er mwyn cynyddu nifer y menywod a grwpiau eraill sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar fyrddau sector cyhoeddus. Bwriedir cynnal seminar ar gyfer Cadeiryddion ym mis Gorffennaf eleni lle gellir trafod yr hyn a wnaethpwyd hyd yma.

## FFRAMWAITH GWEITHREDU AR GYFER TROSEDDAU CASINEB

Bydd Llywodraeth Cymru yn lansio Fframwaith Gweithredu i fynd i’r afael â throseddau casineb yn ystod Haf 2013. Bydd yn cwmpasu nodweddion gwarchodedig hil, crefydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd ac yn ymestyn hefyd (ar sail archwiliadol) i isddiwylliannau amgen a phobl hŷn.

## SAFLEOEDD SIPSIWN A THEITHWYR

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyllid i awdurdodau lleol yng Nghymru i adnewyddu safleoedd presennol awdurdodau lleol a chyllid tuag at adeiladu safleoedd newydd. Cynigir cyllid o 100% ac yn ystod 2012/13, ymrwymwyd ychydig dros £1.7 miliwn i brosiectau adnewyddu ledled Cymru.
Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £1.75 miliwn yn 2013/14 tuag at safle newydd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn Aberhonddu, Powys. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu ariannu nifer o brosiectau adnewyddu mewn safleoedd sy'n eiddo i awdurdodau lleol ledled Cymru.

Rydym yn darparu cyngor i Awdurdodau Lleol ar faterion yn ymwneud â datblygu a gwella safleoedd. Rydym wedi cyhoeddi Canllawiau Arferion Da hefyd ar ddatblygu a rheoli safleoedd sipsiwn a theithwyr er mwyn helpu Awdurdodau Lleol.

Roedd y Papur Gwyn ar Dai yn cynnig y dylai'r Bil Tai arfaethedig gynnwys Dyletswydd Statudol ar awdurdodau lleol i wneud darpariaeth ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr newydd lle nodwyd bod angen hynny. Byddwn yn llunio Canllawiau er mwyn helpu Awdurdodau Lleol i ddeall goblygiadau'r Ddyletswydd hon a sut y gallant gydymffurfio a'u cyfrifoldebau.

Rydym wedi cwblhau proses ymgynghori yn ddiweddar hefyd, gyda'r nod o roi Deddf Cartrefi Symudol 1983 ar waith ar safleoedd Awdurdodau Lleol newydd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Bydd y gwaith hwn o weithredu'r Ddeddf yn sicrhau bod preswylwyr sy'n byw ar y safleoedd hyn yn cael sicrwydd deiliadaeth cyfartal, a fydd yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn cydymffurfio â'i chyfrifoldebau dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Bydd Diwygiadau i'r Ddeddf, a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad, yn diogelu Awdurdodau Lleol hefyd er mwyn sicrhau y gallant reoli eu safleoedd yn effeithiol. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad drwy gyfweliadau wyneb yn wyneb gyda 78 o breswylwyr ar yr holl safleoedd Sipsiwn a Theithwyr Awdurdodau Lleol yng Nghymru, digwyddiadau gweithdy ar gyfer rhanddeiliaid ym Merthyr a Wrecsam, a thrwy 14 o gyflwyniadau ysgrifenedig gan sefydliadau ac unigolion. Disgwylir i'r darpariaethau hyn ddod i rym yn ystod yr haf hwn.

Yn ystod yr hydref, bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu ei chynnydd yn erbyn yr amcanion a nodir yn "'Teithio at Ddyfodol Gwell' - Fframwaith Gweithredu a Chynllun Cyflenwi".

## CYNYDDU CYDLYNIANT CYMUNEDOL

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ar gyfer naw Cydgysylltydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol a fydd yn cwmpasu pob un o'r 22 ardal awdurdod lleol er mwyn cynyddu gwaith prif ffrydio cydlyniant cymunedol ac i sicrhau bod y gwaith o gyflawni'r rhaglen yn parhau'n gynaliadwy. Mae'r cyllid hwn hefyd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni dyletswydd y Ddeddf Cydraddoldeb ar gyfer Awdurdodau Cyhoeddus i 'hyrwyddo cysylltiadau da'. Cefnogwyd y gwaith hwn gyda Rhwydwaith Cydlyniant Cenedlaethol a Chanllawiau Prif Ffrydio.

## Y TRYDYDD SECTOR

Mae'r Trydydd Sector yn bartner allweddol yn y gwaith o gyflawni ymrwymiadau ein Rhaglen Lywodraethu. Fodd bynnag, mae'n bwysig cael dealltwriaeth well o'r ffordd rydym yn cydweithio. Felly, mae adolygiad o'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector eisoes ar y gweill. Bydd y prif faterion sy'n cael eu hadolygu yn cynnwys:

- Cynnwys y Trydydd Sector yn y gwaith o gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus.
- Defnyddio Cyllido Seilwaith yn y dyfodol
- Patrwm yr ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector.
- Datblygu Compactau yn y dyfodol rhwng awdurdodau lleol a'r Trydydd Sector.
- Diwygio dogfennau allweddol gan gynnwys y Cynllun y Sector Gwirfoddol, Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector, a'r Cytundeb Partneriaeth gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

Mae gwaith ymgysylltu anffurfiol eisoes wedi cychwyn ar lefel swyddogion yn fewnol ac yn allanol, cyn cynnal ymgynghoriad ffurfiol a fydd yn cychwyn ym mis Mai 2013.

Mae gwaith wedi cychwyn hefyd er mwyn gwella'r systemau a ddefnyddir i olrhain gwariant ar draws Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi sefydliadau gwirfoddol. Mae'r gwaith yn cynnwys gwelliannau technegol a hyfforddi deiliaid cyllidebau er mwyn sicrhau bod diffiniadau'n cael eu defnyddio a thaliadau'n cael eu "tagio'n" gyson.

## DATBLYGU CYNALIADWY

Ym mis Rhagfyr 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn "Cymru Gynaliadwy – Dewisiadau Gwell ar gyfer Dyfodol Gwell". Yn dilyn ymgynghoriad y Papur Gwyn, rhoddir ystyriaeth ofalus i'r ymatebion a sut maent yn llywio'r ffordd ymlaen. Mae'r broses o drosglwyddo cyfrifoldebau i'r portffolio Cymunedau a Threchu Tlodi yn pwysleisio natur draws-lywodraethol ein hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy, yn yr un ffordd y mae ein hymrwymiad i drechu tlodi a hybu cydraddoldeb yn cynnwys llywodraeth yn ei chyfanrwydd. Mae'n cyd-fynd yn dda hefyd â'r ffocws ar y ffordd y mae'n llywodraeth yn gweithio i sicrhau dyfodol gwell a thecach i'n plant a'n pobl ifanc.

**Huw Lewis AC**
**Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**
**Mai 2013**

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Huw Lewis AC / AM**
**Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**
**Minister for Communities and Tackling Poverty**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref HL/00289/13

Christine Chapman AM
Chair of Communities, Equality & Local Government

Dear Christine,

09 May 2013

I wrote to the previous Chair of the Communities, Equality and Local Government committee in March regarding the Welsh Government's consultation on implementing the Mobile Homes Act 1983 on Local Authority Gypsy and Traveller sites. My letter was in response to a query raised by the Chair on 4 March and both letters are attached to this letter as Document 1 (Ann Jones AM letter) and Document 2 (my original response).

I am writing to confirm that government amendments are being considered to the Regulated Mobile Homes Sites (Wales) Bill ("the Bill") that will remove Local Authority Gypsy and Traveller sites from the scope of the provisions in the Bill relating to site licensing.

Earlier this year the Welsh Government consulted on proposals to afford protection to local authority Gypsy and Traveller sites by bringing them within the scope of the Mobile Homes Act 1983. Work is currently underway to consider the responses to that consultation.

I understand officials will be briefing the Committee on the amendments proposed to the Bill on 23 May, and I am sure will be able to answer any questions you may have regarding how they affect Gypsy and Traveller sites.

**Huw Lewis AC / AM**
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Minister for Communities and Tackling Poverty

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.huw.lewis@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Tai ac Adfywio**
**Minister for Housing and Regeneration**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref SF-CS-1289-13

Ann Jones AM
Chair
Communities, Equality and Local
Government Committee
National Assembly for Wales
Ty Hywel

15 May 2013

Dear Ann,

I was delighted to appear before your Committee on 17 April. As agreed, I can now provide further information that the Committee sought.

During the scrutiny session on the Inquiry into Home Adaptations I agreed to provide: guidance on disabled facilities grants; guidance on whether means testing is being applied differently across local authorities; and information on the data used in the calculation of the Housing element of General Capital Funding. I attach this information at Annex 1.

I also agreed to provide further information, during the general scrutiny session, on negotiations with HM Treasury to leave the Housing Revenue Account Subsidy System and any replacement scheme in relation to NewBuy Cymru. Unfortunately, I am not in a position, at this early stage, to provide the Committee with further detailed information at present. However, I can advise that negotiations are continuing with HM Treasury to seek a financial settlement that will enable the Housing Revenue Account Subsidy system to end in Wales, as it has been in England. I am committed to exiting from the HRAS and will be seeking to bring an end to the transfer of HRAS revenues as early as possible.

With regards to further home ownership schemes, I am exploring the options available for a scheme with a loan equity arrangement to help buyers into new homes in Wales. Firstly, I am seeking greater clarity on the English Help to Buy Shared Equity Scheme to aid our research in this area. I will write again to the Committee, once I have further information, to ensure it is first to be made aware of any developments.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk

The Committee also requested further detail on the various Bills that I have responsibility for. I attach this information at Annex 2.

I trust that I have addressed the Committee's queries in full and I look forward to working closely with you in the future.

**Carl Sargeant AC / AM**
Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Minister for Housing and Regeneration

**Annex 1**

**Guidance Relating to Disabled Facilities Grants (DFG)**

A link to the current guidance is attached:

**National Assembly for Wales Circular 20/02 – Housing Renewal Guidance – Revised Annex D – Disabled Facilities Grants**

**http://wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/housing/publications/privaterenewal/?lang=en**

A further link to the guidance covering the DFG Performance Indicator is also attached for your convenience:

**http://dissemination.dataunitwales.gov.uk/webview/index.jsp?language=en**

**Means Testing**

The means test for Disabled Facilities Grants (DFG) is a statutory requirement and is contained in Section of the Housing Grants, Construction and Regeneration Act 1996. The test is amended from time to time to take account of changes to the benefit regime. The test was last amended in March 2013 and revised Regulations in the form of the Housing Renewal Grants (Amendment) (Wales) Regulations 2013 came into force on 1st April. The revised Regulations take account of the introduction of Personal Independence Payments (PIP), which replaced Disability Living Allowance for new claimants form 8th April 2013. The new Regulations also covered the replacement of Council Tax Credit with the Council Tax Reduction Scheme from 1st April 2013. Further revisions to the Regulations are planned in due course to cover the introduction of Universal Credit.

The Housing Renewal Grants Regulations 1996 provide a definition of 'relevant person' for the purposes of applications for DFG. This reflects the policy that the test for DFG should take into account only the resources of the disabled occupant, where this is the applicant, their spouse and partner. One of the principal recommendations contained in the 2005 DFG Review Report was that DFG applications intended to meet the needs of disabled children should not be subject to a means test The Welsh Government accepted this recommendation and decided to implement it immediately. The exemption for disabled children was introduced from 30 September 2005 when the Housing Renewal
Grants (Amendment) (Wales) Regulations 2005 came into force. The Welsh Government also extended the exemption to take account of 'Young Persons' on 20 October 2006.

My officials are not aware of any evidence that the means test is being applied inconsistently across Wales by local authorities and consider any evidence to date to be largely anecdotal. However, they will be raising the

issue at the next meeting of the all-Wales Heads of Environmental Health Technical Panel to gauge local authority views on the matter.

**Data Used in Calculation of General Capital Funding (GCF) – Notional Housing Component**

The formula for allocating GCF funding for Housing is as follows:

20% Amount spent on DFGs (latest 3 year average)
20% Households with low SEC head
15% Private dwelling stock
25% Total repair cost
20% Pensioner households

These indicators are used to assess the relative need at the local authority level and to be able to aggregate up to a total GCF amount for each authority. Local authority allocations are notional amounts and the total funding for each authority remains unhypothecated.

The data are published in the Welsh Government's Green Book which can be accessed via the following link. The formulae are explained on page 123, see page 128 Table 6 for the data behind the housing formula.

http://wales.gov.uk/topics/localgovernment/finandfunding/settlement/lgsettlement1314/greenbook-2013-14/;jsessionid=DDE6A46B52B627818229C15DE257D7D8?lang=en

**Annex 2**

The **Housing Bill** is intended to be introduced into the National Assembly in Autumn 2013. It is expected to include provisions on:

- changes to homelessness law, including a new duty on local authorities to prevent homelessness and allow them to use suitable accommodation in the private sector;
- introducing a compulsory registration and licensing scheme for all private rented sector landlords and letting and management agents;
- giving local authorities the power to charge more than the standards rate of council tax on homes that have been empty for over a year;
- reforms to the Housing Revenue Account Subsidy system, subject to an agreement being reached with HM Treasury;
- introducing standards for local authorities on rents, service charges and quality of accommodation; and
- enabling more use of Community Land Trusts and Co-operative Housing.

The **Renting Homes Bill** broadly follows recommendations from the Law Commission, which called for a much simpler legal framework for renting a home based on two types of rental contract:

- A ‘secure contract’, modelled on the local authority secure tenancy, which will be used mainly for long term housing by councils and housing associations;
- A ‘standard contract’, which will be similar to the current assured shorthold tenancy used mainly in the private rented sector.

Together, these contracts will replace several existing, and different, types of rental contract. They will help ensure equality and flexibility across the different types of rented housing. I intend to publish a White Paper on 20 May 2013.

The **Mobile Homes (Wales) Bill** is currently being scrutinised by Committee and will create a second-tier licensing regime for residential park homes setting out requirements for the making of licence applications and the management of residential park home sites. The Bill will ensure that a single licensing regime is preserved and includes provisions to introduce a fit and proper persons test and the removal of the veto on sales of mobile homes by residents by their site owners.

I also propose to introduce new **planning legislation** to improve the way in which the planning system supports delivery of our key objectives which include increasing the supply of affordable and market housing and

supporting regeneration.  The first Bill, the Planning Reform Bill will make changes to existing planning legislation to improve the effectiveness and speed of delivery, including changes to the respective role of the Welsh Government and local planning authorities.  The second Bill will provide an opportunity secure improvements in efficiency through simplifying and consolidating existing planning legislation into a single Welsh Planning Act.  In taking forward planning legislation I will ensure that the planning system helps to deliver, rather than frustrate, the achievement of our policy objectives.